# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a drwy fideo gynadledda ar Ddydd Mawrth, 26 Gorffennaf 2022 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Tlodi; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Cydraddoldeb, Polisi a Strategaeth Corfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Cynllunio a Datblygu Lleol; Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, ac Emrys Wynne Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Karen Edwards, Chris Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Merfyn Parry, Gareth Sandilands, Peter Scott, Andrea Tomlin, Huw Williams a Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Cyllid ac Eiddo (SG), Addysg (GD), a Chymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid (LG); Cydlynydd Craffu (RE); Rheolwr Prosiect Newid Hinsawdd (JH); Rheolwr Gwasanaeth Cefn Gwlad a Threftadaeth (HR); Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Busnes a Chymunedau (NJ); Prif Reolwr - Cymorth i Ysgolion (JC); Cydlynydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ ac SJ [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol yn eitem 8 ar y rhaglen 'Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Band B' -

Roedd gan y Cynghorydd Gill German ddau o blant oedd yn mynychu Ysgol Uwchradd Prestatyn
Roedd gan y Cynghorydd Jason McLellan blentyn oedd yn mynychu Ysgol Uwchradd Prestatyn
Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun

## 3 MATERION BRYS

Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Arweinydd ei fod wedi derbyn cais gan y Cynghorydd Mark Young i gyflwyno cwestiwn hwyr i'r Cabinet ynglŷn â ffioedd gofal a

gofynnnwyd am gyngor ar hynny. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y darpariaethau cyfansoddiadol sy'n ymwneud â chwestiwn i'w gyflwyno i'r Cabinet, a'r meini prawf ar gyfer mater brys, ni fodlonwyd yr un ohonynt yn yr achos hwn. Fodd bynnag, roedd gan yr Arweinydd ddisgresiwn i ganiatáu'r cwestiwn. Ar ôl ystyried y cwestiwn a nodi pwysigrwydd y testun, defnyddiodd yr Arweinydd ei ddisgresiwn a chaniatáu i'r cwestiwn gael ei gyflwyno. Roedd y cwestiwn yn cyfeirio at bolisi presennol ac roedd yr Arweinydd yn cynghori ac yn atgoffa'r Cynghorydd Young am y dulliau mewnol sydd ar gael o fewn y Cyngor, fel y Pwyllgorau Craffu, os bydd yn dymuno herio neu graffu'r polisi hwnnw.

Darllenodd y Cynghorydd Mark Young ei gwestiwn fel a ganlyn:

"Byddwch yn ymwybodol o'r wasg ar draws Cymru ac yn fwy diweddar yng Ngogledd Cymru o ran costau gofal sy'n cael ei dalu gan awdurdodau lleol. Y mis diwethaf, pleidleisiodd Cabinet Cyngor Gwynedd i gynyddu ffioedd ar gyfer gofal nyrsio o 25%, ac erbyn hyn mae Ynys Môn hefyd wedi cytuno i gynyddu ffioedd o 25%. Rwyf wedi cael gwybod bod Conwy a Wrecsam hefyd wedi cynnal adolygiadau o lefelau cyllido. Felly yn sgil yr adroddiadau diweddar hyn, fy nghwestiwn i, ar ôl i'r uchod gael eu codi yn y wasg, ac i mi yn bersonol, ac wrth fynd ar eu pen eu hunain mae'r cynghorau yn symud i ffwrdd o'r dull rhanbarthol ar gyllid gofal, beth yw sefyllfa Sir Ddinbych mewn perthynas â hyn? Teimlaf y bydd yr ymateb gan y Cabinet heddiw yn ddefnyddiol ac yn cael ei werthfawrogi gan aelodau etholedig, trigolion a darparwyr gofal."

Ymatebodd y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r cwestiwn fel a ganlyn:

"Rwy'n ymwybodol o'r wasg diweddar o ran ffioedd gofal yng Ngogledd Cymru ac rwy'n croesawu'r cyfle i fynd i'r afael â'r mater ac egluro sefyllfa Sir Ddinbych. Bob blwyddyn, mae Cyngor Sir Ddinbych yn gosod ffioedd cyn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer pecynnau gofal Nyrsio a Phreswyl a gomisiynir yn allanol, Cartrefi Gofal Arbenigol, Gofal Cartref a Chynlluniau Byw â Chymorth. Nid yw hwn yn benderfyniad unochrog, mae mewn cydweithrediad â Grŵp Ffioedd Gofal Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mewn ymgynghoriad gyda darparwyr. Yn fras, yn dilyn y fethodoleg hon a gytunwyd yn rhanbarthol, gwnaed penderfyniad ym mis Ionawr eleni i gynyddu ffioedd ac i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Golygai hyn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022 - 23 (o ffioedd y flwyddyn flaenorol) roedd cynnydd o 6.96% ar gyfer cartrefi gofal preswyl, 10.15% ar gyfer cartrefi gofal preswyl EMI, 7.04% ar gyfer cartrefi nyrsio, 10.21% ar gyfer cartrefi nyrsio EMI, a 8.12% ar gyfer gofal cartref.

Anfonwyd llythyrau ym mis Chwefror i ddarparwyr yn amlinellu'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd, a chynhaliwyd cyfarfodydd i drafod hyn. Er bod nifer o'n darparwyr wedi croesawu hyn, mae pryderon wedi cael eu codi am y cynnydd mewn costau, megis cynnydd mewn costau tanwydd yn effeithio ar ofal cartref, cynnydd mewn costau bwyd, cyfleustodau ac yswiriant yn effeithio ar gartrefi gofal, gan gydnabod bod rhai wedi dibynnu ar gymorth ariannol Covid-19 dros dro Llywodraeth Cymru sydd bellach wedi dod i ben, ac wrth gwrs y gost o heriau recriwtio a chadw staff. Felly, gwnaed penderfyniad arall ym mis Mehefin eleni i gydnabod yr her bresennol ac i ddarparu cynnydd ychwanegol i'r ffioedd presennol,

a hefyd hoffwn nodi bod hyn cyn i Wynedd ac Ynys Môn gyhoeddi eu cynnydd mewn ffioedd yn gyhoeddus.  Felly golygai hyn ar gyfer ffioedd cartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio a ffioedd cartrefi gofal arbenigol, penderfynwyd cynyddu CPI 0 3.1% (Medi 2021) i 7% ym Mawrth eleni er mwyn adlewyrchu'r costau chwyddiant.  Ar gyfer gofal cartref, penderfynwyd rhoi cyfradd 50c ychwanegol i'n holl alwadau awr o hyd, sydd hanner y £1/awr a gafodd ei roi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 gyfan ac i gynyddu'r gost o alwadau hanner awr o 50c i gydnabod adborth gan y darparwyr a'r lleihad mewn amser cynhyrchiol rhwng galwadau byr.  Mae hyn wedi cael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2022 ac anfonwyd llythyrau ar 21 Mehefin i'r darparwyr yn cadarnhau hyn, ac mae wedi cael ei groesawu gan nifer.  Darllenaf ymateb gan un o'r darparwyr i chi, mae'n dweud, "*Hoffwn ddiolch i chi am yr elfen ychwanegol ar gyfer y cynnydd ar gyfer 2022/23.* Roedd yn gadarnhaol iawn eich bod wedi gallu ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan ddarparwyr a gwerthfawrogir hyn.  Pasiwch ein diolchiadau ymlaen i eraill oedd yn rhan o'r adolygiad".

Y pwynt pwysicaf yr hoffwn ei ychwanegu, gan fy mod yn credu ei fod yn angenrheidiol i aelodau fod yn ymwybodol o hyn, yn ogystal â thrigolion, mae Sir Ddinbych bob amser wedi cynnal yr agwedd hon gyda'n holl ddarparwyr, os oes ganddynt anawsterau penodol, byddem yn cwrdd â nhw a chyflawni ymarfer llyfr agored.  Felly i bwysleisio hyn, mae cynnig ar gael i ddarparwyr gwrdd â'r Cyngor os oes ganddynt anawsterau ariannol, cyhyd â'u bod yn cyfiawnhau'r angen am gymorth ychwanegol trwy agor eu llyfrau.  Felly i grynhoi, rwy'n credu ei bod yn bwysig ystyried y cyd-destun o gymharu ffigyrau gan fod ein marchnad gofal cymdeithasol yn wahanol iawn i Ynys Môn a Gwynedd, felly gyda hynny mewn golwg mae Sir Ddinbych wedi bod yn adolygu'r mater ac wedi darparu cynnydd mewn ffioedd i adlewyrchu'r pwysau yn lleol ac rwy'n gwybod y bydd Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda darparwyr a Grŵp Ffioedd Gofal Rhanbarthol Gogledd Cymru wrth ddechrau gwaith i benderfynu ar ffioedd gofal ar gyfer 2023/24."

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Heaton am ei hymateb, yn ogystal â'r Cynghorydd Mark Young, a amlygodd yr angen i adolygu'r dull rhanbarthol wrth symud ymlaen o ystyried bod dau gyngor wedi symud i ffwrdd o ffioedd safonol Gogledd Cymru.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022.

**Materion yn codi -** Tudalen 8, Eitem 5 Cymeradwyaeth Cais Cronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU - Etholaeth Gorllewin Clwyd - Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts o ran newidiadau i'r broses ers y cyfarfod diwethaf ac os fyddai hyn yn effeithio ar gais Sir Ddinbych, awgrymodd yr Arweinydd ei fod yn cwrdd â'r Cynghorydd Hilditch-Roberts a Phennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad tu allan i gyfarfod y Cabinet er mwyn trafod y mater ymhellach.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 ADOLYGU PENDERFYNIAD Y CABINET YN YMWNEUD Â'R CYNLLUN PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CAFFAEL TIR (RHYDD-DDALIADOL A LES-DDALIADOL) I DDIBENION DAL A STORIO CARBON A GWELLIANNAU ECOLEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau adroddiad yn rhoi gwybodaeth ar ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu yn dilyn ystyriaeth o alw mewn penderfyniad y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 mewn perthynas â chynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol.

Yn gryno, cydnabu'r Pwyllgor pe byddai'r Cyngor am gyflawni ei uchelgais mewn perthynas â lleihau carbon, byddai angen mabwysiadu dull amlochrog, a fyddai'n cynnwys prynu darnau o dir i'w defnyddio i osod yn erbyn y defnydd carbon na ellir ei osgoi, ac roedd y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd na fyddai tir amaethyddol sefydlog yn cael ei brynu ar gyfer y diben hwn. Fodd bynnag, codwyd pryderon o ran y canlyniadau anfwriadol posibl y gall bryniannau tir o'r fath ei gael ar hyfywedd busnesau amaethyddol lleol yn y dyfodol a bywoliaeth teuluoedd lleol, a all gael effaith andwyol ar gynaladwyedd economaidd hirdymor cymunedau lleol, gan newid cyfansoddiad ac ethos bywyd cymunedol mewn ardaloedd gwledig y sir. O ganlyniad i hynny, gofynnwyd i'r Cyngor ail-ymweld â'r penderfyniad gan ystyried pryderon ac argymhellion y Pwyllgor i sicrhau cefnogaeth cymunedau gwledig ar gyfer y broses, atgyfnerthu cyfranogiad aelodau etholedig yn y broses, a sicrhau y byddai adnoddau digonol ar gael i'r Tîm Gwasanaethau Cefn Gwlad i ddarparu dyheadau amgylcheddol y Cyngor.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Williams nad oedd y Pwyllgor Craffu yn erbyn egwyddor y dull, ond ei fod eisiau prosesau cywir yn eu lle i wasanaethau trigolion Sir Ddinbych a sicrhau proses agored a thryloyw.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a canolbwyntiwyd ar y prif faterion trafod a ganlyn -

- Roedd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yn gefnogol o'r Cabinet yn ailystyried ei benderfyniad gan ystyried barn y Pwyllgor Craffu. Fodd bynnag, roedd hi'n teimlo y dylai'r camau a argymhellwyd ym mharagraffau 3.2 (i) - (iv) gael eu hystyried fel rhan i'r ail-ystyriaeth yn hytrach na chael eu cytuno ymlaen llaw, a chynigodd addasiad ar y sail honno, gan adrodd yn ôl i'r Cabinet wedyn
- rhoddwyd eglurder o ran y broses gwneud penderfyniadau a rôl craffu, a nodwyd yn sgil y galw i mewn, nid oedd penderfyniad y Cabinet wedi cael ei weithredu. Er y gallai swyddogion barhau i brynu tir o dan y prosesau cyfredol, roedd y broses gwneud penderfyniadau cyflym wedi ei atal tan i'r Cabinet ail-ystyried ei benderfyniad.
- roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y dull i gaffael tir ar gyfer dibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol, o ystyried yr argyfwng newid hinsawdd, ynghyd â'r angen i gyflymu'r broses penderfyniad dirprwyedig ar gyfer prynu tir er mwyn bodloni'r amcan heb unrhyw oedi.
- er y cytunwyd y dylid cyflawni ymgynghoriad pellach gyda'r Undeb Amaethwyr a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc cyn gynted â phosibl, cydnabu hefyd bod angen ymateb yn gyflym er mwyn lleihau unrhyw oedi o ran y Cabinet yn

gwneud y penderfyniad olaf ar y mater. Adroddodd y Cynghorydd Huw Williams ar lwyddiant y Grŵp Tasg a Gorffen Perygl Llifogydd fel fforwm ar gyfer trafod, ac os oedd yn briodol, byddai Grŵp Tasg a Gorffen yn gallu cael ei sefydlu fel ffordd o ymgysylltu â'r partïon perthnasol yn y mater hwn.

- o ran terfynau amser, awgrymwyd y byddai adroddiad yn ôl i'r Cabinet ym mis Hydref yn darparu digon o amser i weithio gydag Undebau Amaethwyr a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc i geisio ymatebion cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Craffu.
- Cadarnhaodd Pennaeth Cyllid ac Eiddo fod y broses o gaffael tir yn parhau ac adroddodd ar bryniant tir presennol yn Llanelwy ar gyfer y diben a oedd wedi derbyn yr holl gymeradwyaeth angenrheidiol. Fodd bynnag, roedd y Cyngor wedi methu allan ar brynu o leiaf un darn o dir ers mis Ebrill yn sgil yr angen am benderfyniadau cyflym. Er hynny, roedd angen i'r broses fod yn gywir ar gyfer pawb ynghlwm ac roedd yn briodol i adolygiad gael ei gynnal
- Amlygodd y Cynghorydd Merfyn Parry bwysigrwydd gwybodaeth leol, a dyna'r rheswm dros argymell ymgynghoriad gydag aelodau lleol a Grwpiau Ardal yr Aelodau, na fyddai'n achosi unrhyw oedi yn y broses, ac i fod yn ystyriol o anghenion cymunedau ffermio yn yr ardal gyda phroses mwy cynhwysol.
- derbyniwyd fod angen cydbwysedd er mwyn cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau dirprwyedig ar gyfer caffael tir ac i wneud y mwyaf o gyfleoedd i'r Cyngor fodloni ei dargedau lleihau carbon wrth ddarparu proses cynhwysol i sicrhau cefnogaeth holl fudd-ddeiliaid lle bynnag bosibl, a bod angen ystyried cydbwysedd fel rhan o adolygiad y Cabinet i'w benderfyniad gwreiddiol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Huw Williams am ei gyfraniad, gan amlygu'r angen i Undebau Amaethwyr a Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc ymgysylltu ac ymateb yn brydlon i'r ymgynghoriad. Darparodd y Cynghorydd Williams sicrwydd o ran hynny. Amlygodd hefyd yr oedi sylweddol wrth symud ymlaen gyda gwerthiant tir a gyflwynodd ar gyfer dibenion dal a storio carbon, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn.

Ailddatganwyd addasiad arfaethedig y Cynghorydd Ellis i'r argymhellion, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Emrys Wynne, ac ar bleidlais -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) cydnabod casgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ei bryderon a'i argymhellion yn dilyn ei adolygiad o benderfyniad y Cabinet ar 15 Chwefror 2022 mewn perthynas â chynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir (rhydd-ddaliadol a les-ddaliadol) i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol,*

*(b) cytuno i ail-ystyried ei benderfyniad gwreiddiol, gyda golwg i gyflymu'r broses o wneud penderfyniad ar gyfer prynu tir, ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw, ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Craffu fel y nodwyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad, a*

*(c) gofyn i swyddogion ddod ag adroddiad yn ôl i'r Cabinet ar yr adolygiad i'w ystyried gan y Cabinet ym mis Hydref.*

## 6 Y GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu'r Rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin ymhellach, dirprwyo awdurdod i ddatblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer eu cynnwys yn y Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol ac i Gyngor Sir Gwynedd weithredu fel arweinydd rhanbarthol ar gyfer y rhaglen.

Roedd y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn rhan o'r agenda Codi'r Gwastad gan ddisodli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Roedd yn bennaf yn rhaglen cyllido refeniw a dyraniad unigol Sir Ddinbych oed £25,647,958.

Eglurodd y Pennaeth Cymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid y trefniadau ar gyfer cynllunio a darparu'r Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol gyda blaenoriaethau buddsoddi yn canolbwyntio ar: (1) Cymuned a Lle, (2) Cefnogi Busnesau Lleol, a (3) Pobl a Sgiliau. Ar y cam hwn, nid oedd angen canfod prosiectau i gyflawni canlyniadau, a byddai'r elfen honno'n cael ei chyflawni yng ngham nesaf y broses. Yn dilyn cyflwyno'r strategaeth, byddai prosbectws yn cael ei ddatblygu yn manylu ar ymyraethau a sut allai budd-ddeiliaid dynnu cyllid i lawr a darparu prosiectau i helpu cyflawni canlyniadau. Yn olaf, cyfeiriwyd at yr angen am strwythur partneriaeth rhanbarthol i ddarparu sicrwydd o ran ymgysylltiad priodol gyda'r broses ac i arsylwi darpariaeth y rhaglen.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- Roedd y Gronfa Codi'r Gwastad yn raglen cyllido cyfalaf ac er fod gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin elfen o gyfalaf, roedd yn rhaglen gyllido refeniw yn bennaf. Gellir defnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer prosiectau refeniw mewn modd i wneud y mwyaf o effeithiau'r prosiectau Codi'r Gwastad cyfalaf a sicrhau'r gwerth gorau, ac yn rhan annatod o'r un rhaglen.
- byddai angen recriwtio nifer o staff i reoli a darparu'r rhaglen a gellir defnyddio hyd at 4% o ddyraniad cyllido Sir Ddinbych ei ddefnyddio i wneud cais am gyllid ar gyfer y diben hwnnw. Fodd bynnag, disgwyliwyd y byddai llawer llai na'r swm hwnnw yn cael ei wario ar weinyddu'r rhaglen.
- roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar strwythur a threfniadau rhanbarthol ar gyfer darparu'r Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol fel y cam cyntaf yn y broses gyda manylion y prosiectau i'w darparu a chyflawni canlyniadau i ddilyn yn y cam nesaf. Fodd bynnag, roedd dull o'r gwaelod i fyny wedi cael ei gymryd i ddatblygu'r strategaeth ranbarthol gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau ac anghenion lleol yn y lle cyntaf, ac yn dilyn hynny byddai unrhyw flaenoriaethau cyffredin gydag awdurdodau eraill yn cael eu hystyried i ganfod lle byddai'n fwy effeithlon neu effeithiol i gydweithio yn isranbarthol neu'n rhanbarthol. Roedd posib rhoi sicrwydd fod oddeutu 40% o'r dyraniad wedi ei glustnodi ar gyfer buddsoddi mewn cymunedau lleol (blaenoriaeth Cymuned a Lle)
- Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn awyddus i aelodau etholedig fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a nodwyd hynny yn y strwythur ar gyfer trefniadau darparu lleol. Dywedodd y Pennaeth Cymunedau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid, er nad oedd mandad gan Lywodraeth y DU o ran hynny, roedd er budd Sir Ddinbych i gyflawni ymarfer ymgysylltu lleol ac roedd disgwyliad i Gynghorau Cymuned/Tref/Dinas a Grwpiau Ardal yr Aelodau fod yn

rhan o hyrwyddo'r cyfle i wneud cais ar gyfer cyllid a chanfod prosiectau i'w blaenoriaethu wrth fynd ymlaen. Cynigodd y byddai'n adrodd yn ôl gyda rhagor o wybodaeth ar y trefniadau lleol fel rhan o'r cam nesaf.

- Cyfeiriodd yr Arweinydd at feirniadaeth o ddiffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU gyda Llywodraeth Cymru o ran rhaglenni wedi'u cyllido'n ddomestig i gymryd lle rhaglenni Ewropeaidd megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a phwysleisiodd y Cynghorydd Mark Young fod angen mynd i'r afael â'r mater o ystyried y trawsgroesiad o gyfrifoldeb rhwng y ddau lywodraeth a'r heriau a wynebir. Rhoddodd y Pennaeth Cymunedau a Chwsmeriaid sicrwydd fod Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru o ran buddsoddiad rhanbarthol gan sicrhau nad oedd dyblygu a nodi targedau presennol o strategaethau a chynlluniau amrywiol.

Diolchodd yr Arweinydd i'r aelodau am eu cyfraniad i'r drafodaeth ar fecanweithiau'r strategaeth buddsoddi a sut fyddai'n cael ei ddarparu, ac fe amlygodd drafodaeth ehangach ar wahân i'r mater o ran rhaglenni i gymryd lle'r rhaglenni gyda chyllid Ewropeaidd a rhyngweithiadau o ran hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) cymeradwyo datblygiad pellach y rhaglen Cronfa Ffyniant Gyffredin o fewn Sir Ddinbych, ac yn rhanbarthol drwy fewnbwn swyddogion yn unol â'r egwyddorion fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

*(b) darparu awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a'r Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Tlodi er mwyn datblygu a chyflwyno blaenoriaethau Sir Ddinbych ar gyfer eu cynnwys yn y Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol er mwyn galluogi'r cyllid rhaglen i gael ei dynnu i lawr, a*

*(c) chefnogi'r cynnig i ofyn i Gyngor Sir Gwynedd i weithredu fel y corff arweiniol i gyflwyno Strategaeth Buddsoddi Rhanbarthol i Lywodraeth y DU ac i arwain ar ddarparu'r rhaglen.*

## 7 CAFFAEL GWASANAETH CEFNOGI NEWYDD AR GYFER LLETY DROS DRO MEWN ARGYFWNG (ATAL DIGARTREFEDD)

Cyflwynodd y Cynghorydd Rhys Thomas yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael ar gyfer gwasanaeth cefnogi digartrefedd newydd ar gyfer llety dros dro mewn argyfwng.

Yn dilyn y gwaith da a gyflawnwyd yn nhymor blaenorol y Cyngor, roedd gwaith wedi bod yn parhau ers peth amser ar y prosiect i ddatblygu cynnig llety dros dro mewn argyfwng a darparu cymorth cyfannol i drigolion mewn llety sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, er mwyn eu cefnogi i mewn i lety parhaol, lleihau'r risg o ddigartrefedd yn digwydd eto a gwella canlyniadau lles. Mae caffael wedi cael ei roi yn y Ffurflen Comisiynu wedi'i atodi i'r adroddiad a byddai'r contract yn cael ei ariannu'n llawn gan Grant Cymorth Tai a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad oedd cynnig contract 5 mlynedd, a fyddai'n cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn darparu cymorth cynhwysfawr 24 awr i bobl sy'n gadael llety brys dros dro.

Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth, Cymorth Busnes a Chymuned i gwestiynau aelodau ar yr adroddiad fel a ganlyn -

- roedd oddeutu 185 o aelwydydd mewn llety brys dros dro ar hyn o bryd, a gyda'r cyllid oedd ar gael, y disgwyliad oedd y byddai cymorth yn gallu cael ei ddarparu ar gyfer hyd ar 100 - 120 o aelwydydd y flwyddyn ar gyfradd o oddeutu £2,000 i gefnogi ystod o weithgareddau a oedd angen i symud yr aelwydydd hyn ymlaen. Roedd contract ar wahân ar gyfer prosiect atal ac ymyrraeth gynnar i fod i ddechrau ym Medi er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref ac felly rhagwelwyd y byddai'r gwasanaeth cymorth newydd yn gallu cynnig cymorth i bawb o fewn llety brys dros dro.
- Fel rhan o'r cynlluniau ailgartrefu cyflym, y nod oedd sicrhau fod yr amser a dreulir mewn llety brys dros dro mor fyr â phosibl. Fodd bynnag, roedd angen bod yn ystyriol fod y dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac na fyddai holl unigolion yn gallu symud ymlaen ar unwaith.
- Roedd mwyafrif y llety brys wedi'u lleoli yng ngogledd y sir, yn bennaf yn ardal y Rhyl, ac yn cynnwys llety gwely a brecwast a gwestai. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i dendro ar gyfer gwaith adnewyddu i Epworth Lodge, y Rhyl a fyddai'n darparu llety mewnol. Fodd bynnag, cydnabu bod digartrefedd yn fater ar draws y sir ac roedd llety brys dros dro yn ne'r sir a byddai cymorth yn cael ei ymestyn ar draws Sir Ddinbych.
- Ar hyn o bryd roedd capasiti mewn llety brys dros dro ar gyfer 210 o aelwydydd gyda chyfleuster mewnol y Cyngor, Epworth Lodge yn debygol o fod ar gael yn chwarter olaf y flwyddyn, ac roedd gwaith pellach angen i ganfod unedau ychwanegol ar gyfer llety o fewn y sir wrth symud ymlaen. Pwysleisiodd y Cynghorydd Emrys Wynne y pwysigrwydd o ddarparu llety o'r fath ar gyfer pobl o fewn eu cymunedau eu hunain ac roedd yn awyddus fod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau unedau ar draws y sir gyfan ar gyfer y diben hwnnw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) cymeradwyo dechrau caffael fel y nodwyd yn y Ffurflen Gomisiynu yn Atodiad 1 yr adroddiad, a*

*(b) chadarnhau ei fod wedi darllen ac ystyried yr Asesiad o Les (Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer Cynllun Darparu Grant Cymorth Tai 2022 - 25 yn Atodiad 3 yr adroddiad).*

Ar y pwynt hwn (11.20 am) cymerodd y pwyllgor egwyl am luniaeth.

## 8 CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU - BAND B

Cyflwynodd y Cynghorydd Gill German yr adroddiad ar y canfyddiadau o'r adolygiad gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg ar y broses blaenoriaethu ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy Band B ar gyfer Dysgu, yn ôl cais y Cyngor ym mis Ionawr 2022.

Yn dilyn rhybudd o gynnig yn Ionawr 2022, a oedd wedi tarddu o bryderon dros gyflwr Ysgol Uwchradd Prestatyn, roedd y Cyngor wedi gwneud cais fod arolygon

cyflwr o holl ysgolion yn cael eu hadolygu er mwyn gweld os oeddent wedi newid i’r fath raddau er mwyn codi amheuon am drefn blaenoriaeth bresennol ysgolion. Ymhelaethodd y Pennaeth Addysg ar y broses adolygu a gyflawnwyd gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg yn Ebrill 2022 a’r ailasesiad o gyflwr adeiladau ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o’r ystâd addysg. Ni chanfuodd yr adolygiad unrhyw newid sylweddol o ran cyflwr ysgolion ers 2016 a fyddai’n effeithio ar y blaenoriaethau dewisol, gan ddod i’r casgliad fod y blaenoriaethau’n gywir a bod yr ysgolion a gafodd eu neilltuo ar gyfer buddsoddiad Band B yn cynrychioli’r rhai â’r angen mwyaf. O ran Ysgol Uwchradd Prestatyn yn benodol, nododd y Bwrdd fod gwaith wedi cael ei gyflawni gyda’r ysgol i wneud y defnydd gorau o fuddsoddiad cyfalaf o’r cynllun Cynnal a Chadw Adeilad.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y pwyntiau canlynol -

- Er nad oedd sicrwydd y byddai cyfran pellach o gyllid ar gyfer ysgolion yn dilyn Band B, roedd disgwyliad o ran hynny, ond roedd natur unrhyw flaenoriaethau cyllido yn y dyfodol a pha ffurf y buasai hyn yn anhysbys.
- Roedd y Cynghorydd Emrys Wynne wedi datgan diddordeb fel llywodraethwr ysgol Ysgol Brynhyfryd a mynegodd ei siom nad oedd posib cynnwys yr ysgol honno ac ysgolion eraill oedd angen buddsoddiad fel rhan o’r broses Band B, a gobeithiai y byddai cyfleoedd eraill i fuddsoddi yn yr ysgolion hynny fel rhan o’r cyfrannau cyllido yn y dyfodol. Cydnabu swyddogion fod ysgolion eraill hefyd angen buddsoddiad ac nid oedd digon o gyllid i fuddsoddi yn yr holl ysgolion hynny. Fodd bynnag, roedd ffrydiau cyllido eraill yn ychwanegol at Band B, megis y cynllun Cynnal a Chadw Adeiladau, yn cael eu defnyddio i ymateb i anghenion ysgolion eraill nad oedd yn destun buddsoddiad mawr trwy Band B ar hyn o bryd.
- Roedd cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn destun cyllid ar wahân, gyda chynllun cyfalaf ar gyfer rhai o’r gwaith dechreuol er mwyn galluogi darpariaeth ar gyfer Derbyn ym Medi a Blwyddyn 1 a 2 yn y Pasg, gyda dialog rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru o ran gofynion cyflwyno i Flwyddyn 6 yn y dyfodol. Byddai goblygiadau refeniw o ganlyniad i’r newid ond roedd y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn cael ei hyrwyddo’n fawr gyda’r golwg i sicrhau cofrestriad cryf wrth fynd ymlaen.

Roedd y Cynghorydd Gill German wedi datgan cysylltiad personol yn yr eitem gan fod ei phlant yn mynychu Ysgol Uwchradd Prestatyn ac roedd hi hefyd yn gyn-ddisgybl. Ynghyd â’i chyd aelod Prestatyn, y Cynghorydd Jason McLellan, roedd hi wedi cyflawni taith o’r ysgol ac wedi trafod gyda’r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr y materion yn ymwneud â’r rhybudd o gynnig. Cyfeiriwyd at yr atodiad yn yr adroddiad yn manylu ar y rhaglen 5 mlynedd o fuddsoddiad i fynd i’r afael â blaenoriaethau’r ysgol a’r cynnydd a wnaed o ran hynny, ac roedd hi’n falch o ddarparu diweddariad ar gynnydd pellach o ran y maes parcio a’r coridor mynediad. Hefyd rhoddodd sicrwydd y byddai hi’n sicrhau cynnydd amserol i fynd i’r afael â phrif flaenoriaethau’r ysgol yn unol â’r rhaglen pum mlynedd ac i sicrhau yr amgylchedd orau bosibl ar gyfer disgyblion wrth fynd ymlaen.

Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn falch o nodi fod y sefyllfa yn Ysgol Uwchradd Prestatyn wedi cael ei adlewyrchu’n gywir yn dilyn rhybudd o gynnig ac roedd yn awyddus i sicrhau nad oedd y broses yn cael ei ddefnyddio gan

gynghorwyr fel ffordd o lobïo am fuddsoddiad i ysgolion yn eu wardiau. Roedd hefyd yn falch o nodi fod canfyddiadau'r Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg yn rhoi hyder i'r broses blaenoriaethu ar gyfer ysgolion. Cytunodd y Cynghorydd German, gan egluro bod ei sylwadau o ran buddsoddiad yn Ysgol Uwchradd Prestatyn yn ymwneud â gwaith a gytunwyd yn flaenorol, ac nid oedd y wasg negyddol o ran y rhybudd o gynnig wedi cynrychioli barn yr ysgol ar y mater. Pwysleisiodd yr angen am broses blaenoriaethu teg a thryloyw ar gyfer ysgolion ac roedd canfyddiadau'r adolygiad wedi dangos fod y broses wedi cael ei gynnal yn briodol ac yn gywir. Fel aelod arweiniol, roedd hi'n cynrychioli bob plentyn yn Sir Ddinbych, roedd pob plentyn yn bwysig, ac mi fyddai'n sicrhau bod pob ysgol yn cael sylw dyledus.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cadarnhau barn y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg nad oedd unrhyw newid sylweddol wedi digwydd o ran cyflwr adeiladau ysgol a bod y drefn polisi presennol yn dal i fod yn gyfredol ac yn gywir.*

## 9 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Gwyneth Ellis yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

Darparwyd crynodeb o sefyllfa ariannol y cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2022/23 oedd £233.693 miliwn (£216.818 miliwn yn 2021/22).
- rhagwelir y byddai gorwariant o £1.936 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol.
- tynnwyd sylw at y risgiau a thybiaethau presennol yn ymwneud â chyllidebau corfforaethol a meysydd gwasanaeth unigol ynghyd ag effaith ariannol Coronafeirws a chwyddiant
- manylion o gynnydd mewn arbedion a ffioedd gwasanaeth (£0.754 miliwn); nid oes geisiwyd unrhyw arbedion gan Wasanaethau Cefnogi Cymunedau nac Ysgolion
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Fe wnaeth y Pennaeth Cyllid ac Eiddo hefyd dynnu sylw'r aelodau at y canlynol -

- Mae sefyllfa'r gyllideb yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi gwaethygu ers y mis diwethaf gyda rhagolygon o orwariant o £1.938 miliwn; roedd mwyafrif y pwysau (£1.542 miliwn) yn ymwneud â lleoliadau maethu annibynnol a phreswyl newydd ac roedd yr anawsterau o ran rhagweld gwariant ar gyfer y gwasanaeth a arweinir gan y galw wedi ei ddogfennu. Byddai'r agwedd honno'n ffurfio rhan o drafodaeth am y gyllideb yn yr hydref, o ran sut i ddelio orau â'r pwysau wrth symud ymlaen. Roedd posib rheoli cyfanswm y gorwariant presennol o gydag arian wrth gefn, ond byddai unrhyw gynnydd pellach angen defnyddio lefel sylfaenol y cronfeydd wrth gefn.
- Roedd yr arian wrth cefn y Cynllun Cyfalaf wedi cynyddu o £1.676 miliwn i £2.176 miliwn yn sgil cario elfen heb ei neilltuo y grant cyfalaf a dderbyniwyd

gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth ymlaen, ac roedd £1.2 miliwn o'r arian wrth gefn wedi ei ddyrannu ar gyfer y Prosiect Gwastraff yn unol â chymeradwyaeth blaenorol y Cabinet yn Ebrill, gan adael elfen o'r arian wrth cefn cyfalaf ar gyfer nifer o brosiectau llai.
- Gan mai mis Medi y bydd y Cabinet yn cwrdd nesaf yn sgil egwyl ym mis Awst, amlygwyd nifer o risgiau o ran cyllidebau ysgol, cludiant ysgol, incwm parcio ceir a chwyddiant, gan gynnwys y cynnig tâl llywodraeth leol a oedd wedi cael ei wneud y diwrnod blaenorol a'r setliad terfynol. Byddai monitro'r gyllideb yn agos yn parhau a byddai'r Cabinet yn derbyn adroddiad yn ôl ym mis Medi.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2022/23 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.*

## 10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau diwygiadau canlynol –

- Creu Bwrdd Rheoli Maethynnau (dalgylch Afon Dyfrdwy) - Medi
- Marchnad y Frenhines: Dyfarnu Contract Gweithredu - wedi'i ail-drefnu ar gyfer Hydref
- Adolygu Penderfyniad y Cabinet: Cynllun penderfyniadau dirprwyedig arfaethedig ar gyfer caffael tir i ddibenion dal a storio carbon a gwelliannau ecolegol - Hydref

***PENDERFYNWYD** nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05 pm.